**LC408**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002

O dan Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 caiff Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gyhoeddi cynigion i newid ysgol a gynhelir fel na fydd mwyach yn darparu addysg chweched dosbarth, neu i gau ysgol a gynhelir sy'n sefydliad 16-19 oed os oes, a siarad yn fras, ddau adroddiad olynol yn datgan bod y chweched dosbarth yn annigonol neu fod ar sefydliad 16-19 oed angen mesurau arbennig neu fod ganddo wendidau arwyddocaol.

Ceir y gweithdrefnau ar gyfer arfer y pwerau hyn yn Atodlen 7 ac ychwanegir atynt gan ddarpariaethau'r rheoliadau hyn.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o fân bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol.  Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi bellach fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Chwefror 2002